# Yr Arolwg Teithio

Mae'r arolwg teithio'n cefnogi arweinwyr dinasoedd a threfi i ddeall a gwella arferion cerdded, mynd ar olwynion a beicio ar draws y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

## Ar y dudalen hon


1. Gair am yr astudiaeth
2. Sut allaf i gymryd rhan?
3. Pam gefais i fy newis i gymryd rhan?
4. Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud os byddaf yn cymryd rhan?
5. Pwy sy'n gwneud yr ymchwil?
6. Beth wnewch chi â'r wybodaeth a roddaf?
7. A fyddaf yn derbyn taleb am gymryd rhan?
8. A fydd fy atebion yn gwneud gwahaniaeth?
9. Cysylltu â ni
10. Hysbysiad preifatrwydd


## Gair am yr astudiaeth

Mae'r Arolwg Teithio'n gyfres o astudiaethau ymchwil a gomisiynwyd gan Sustrans mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan.

Mae'r arolwg yn archwilio datblygiad cerdded, mynd ar olwynion a beicio mewn dinasoedd, gan gynnwys isadeiledd, ymddygiad teithio, effaith cerdded, mynd ar olwynion a beicio, a mentrau newydd. Bydd Sustrans ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r wybodaeth i wella isadeiledd, i ddeall ymddygiad teithio ac i wella'r teithio o amgylch eich ardal.

## Sut allaf i gymryd rhan?

Rydym wedi gwahodd bron i 110,000 o gartrefi ledled y Deyrnas Unedig i gymryd rhan yn yr arolwg. Os yw eich cartref chi wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan, byddwch wedi derbyn llythyr yn y post. Yn anffodus, os nad ydych wedi derbyn llythyr, ni fyddwch yn gallu cymryd rhan.

Os ydych wedi derbyn llythyr ac rydych yn bwriadu cymryd rhan, cliciwch ddolen yr arolwg isod a rhowch eich cod mynediad unigryw sydd i'w weld ar eich llythyr:

survey.natcen.ac.uk/travel

## Pam gefais i fy newis i gymryd rhan?

Os ydych wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan, y rheswm am hyn yw bod eich cartref wedi ei ddethol o'r rhestr o gyfeiriadau preswyl sydd ar gael yn gyhoeddus gan y Post Brenhinol yn un o'r 'Dinasoedd' sydd wedi eu dewis ar gyfer yr arolwg teithio. Rydym wedi dewis cyfeiriadau i sicrhau ein bod yn cael sylwadau sy'n cynrychioli bywydau'r gwahanol grwpiau o bobl sy'n byw yn yr ardal. Lluniwyd yr Arolwg Teithio i alluogi i ni glywed barn y bobl i gyd, p'un a ydyn nhw'n cerdded, yn mynd ar olwynion a/neu yn beicio ai peidio, yn y 'dinasoedd' sy'n cymryd rhan.

## Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud os byddaf yn cymryd rhan?

Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan mewn holiadur ar-lein. Bydd hwn yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau.

Bydd yr holiadur yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau gyda'r ffocws pennaf ar deithio, yn arbennig cerdded, mynd ar olwynion a beicio yn eich ardal chi, yr isadeiledd i'w gefnogi, eich ymddygiad teithio a chwestiynau eraill, e.e. am eich statws gweithio. Byddwch yn cymryd rhan yn gwbl wirfoddol a gallwch anwybyddu unrhyw gwestiynau nad ydych eisiau eu hateb.

Gallwch weld y cyfarwyddiadau llawn am gymryd rhan yn y llythyr a anfonwyd atoch chi.

## Pwy sy'n gwneud yr ymchwil?

Mae Sustrans, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, wedi comisiynu'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) i wneud yr astudiaeth ar eu rhan. NatCen yw asiantaeth ymchwil cymdeithasol, annibynnol fwyaf Prydain. Ers bron i 50 mlynedd, mae wedi gweithio gydag elusennau a'r llywodraeth i ganfod beth mae pobl yn ei feddwl go iawn am y pynciau mawr. Mae NatCen yn annibynnol ar holl adrannau'r llywodraeth a'r holl bleidiau gwleidyddol.

## Beth wnewch chi â'r wybodaeth a roddaf?

Bydd y wybodaeth a rowch yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig. Bydd NatCen yn tynnu enwau a chyfeiriadau allan cyn rhoi'r wybodaeth i Sustrans. O'r wybodaeth y mae Sustrans yn ei dal, efallai y bydd hi'n bosibl adnabod rhai ymatebwyr os oes ganddynt gyfuniad unigryw o nodweddion e.e. yr unig berson o oedran, rhywedd ac ethnigrwydd penodol o fewn y dinasoedd sy'n cymryd rhan. Bydd Sustrans yn rhannu'r wybodaeth gyda'r awdurdodau partner sydd wedi eu henwi ar y llythyr sy'n eich gwahodd i gymryd rhan, ac efallai y byddent yn rhannu data di-enw gydag ymchwilwyr eraill, fel prifysgolion, os gofynnir am hynny.

Bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno fel canrannau ac ystadegau mewn adroddiadau sydd ar gael yn gyhoeddus. Ni fydd unigolion wedi eu henwi, ac ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio at ddibenion marchnata.

## A fyddaf yn derbyn taleb am gymryd rhan?

Gall pawb sy'n cwblhau holiadur hawlio taleb. Dim ond un holiadur y pen y byddwn yn ei dderbyn. Mae gwiriadau'n digwydd i ganfod unrhyw dwyllo mewn perthynas â chwblhau holiaduron.

## A fydd fy atebion yn gwneud gwahaniaeth?

Bydd eich atebion yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau am gludiant ac am bolisi cerdded, mynd ar olwynion a beicio yn eich awdurdod lleol a byddent yn dylanwadu ar waith Sustrans, yn cynnwys adroddiad y Mynegai Cerdded a Beicio. Byddent yn defnyddio eich atebion law yn llaw â gwybodaeth arall wrth wneud penderfyniadau ac wrth wario arian cyhoeddus, er mwyn cefnogi trigolion fel chi.

## Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at travel.survey@natcen.ac.uk neu ffoniwch am ddim ar 0808 168 1356.

## Hysbysiad preifatrwydd

Yn NatCen, rydym wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd ac i fod yn agored am y ffordd y casglwn ac y defnyddiwn ddata personol. Byddwn yn trin eich gwybodaeth yn gwbl gyfrinachol o dan y ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol.

Cliciwch yma i weld yr hysbysiad preifatrwydd.

# Yr Arolwg Teithio: Hysbysiad preifatrwydd

Yn NatCen, rydym yn ymroddedig i ddiogelu eich preifatrwydd ac i fod yn agored am y ffordd yr ydym yn casglu ac yn defnyddio data personol. Data personol yw gwybodaeth sy'n dangos pwy ydych chi, yn wahanol i bobl eraill – er enghraifft eich enw, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

Byddwn yn trin eich gwybodaeth yn gwbl gyfrinachol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol am ddiogelu data.

## Pam mae data personol yn cael ei gasglu?

Bydd eich ymateb yn helpu Sustrans a phartneriaid yn y llywodraeth a'r cynghorau lleol i ddeall ymddygiad teithio pobl, i wneud penderfyniadau polisi ac i gyfiawnhau buddsoddiad yn eich ardal.

Y sail gyfreithiol am brosesu'r data yw diddordeb dilys, am fod gan Sustrans a phartneriaid yn y llywodraeth a'r cynghorau lleol ddiddordeb yn eich barn am deithio lleol.

Bydd Sustrans, fel rheolydd y data, yn sicrhau mai dim ond at ddibenion ymchwil ac ystadegol y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio.

Ni fyddwch byth yn derbyn unrhyw alwadau gwerthu neu farchnata o ganlyniad i gymryd rhan yn yr arolwg.

## Pa ddata personol fydd yn cael ei gasglu?

Nid yw'r arolwg yw bwriadu casglu data personol, ond efallai y bydd cyfuniad o ymatebion unigryw yn galluogi i chi gael eich adnabod.

Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn am ddata mewn categori arbennig, yn benodol eich ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd, sy'n fwy sensitif ac sydd felly angen ei ddiogelu fwy.

## Sut mae data personol yn cael ei gasglu?

Dewisir cartrefi i gymryd rhan yn yr arolwg o restr o gyfeiriadau preswyl sydd ar gael yn gyhoeddus gan y Post Brenhinol.

Fe'ch gwahoddir i gwblhau'r arolwg ar-lein neu ar bapur. Byddwch yn cymryd rhan yn gwbl wirfoddol a gallwch anwybyddu unrhyw gwestiynau nad ydych eisiau eu hateb

## Ymhle fydd fy nata personol yn cael ei storio?

Bydd eich data wedi ei storio o fewn y Deyrnas Unedig a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## Gyda phwy fydd fy nata personol yn cael ei rannu?

Bydd rhai elfennau o'r gwaith o brosesu'r arolwg, fel argraffu a phostio, yn cael eu cyflawni drwy drefniadau is-gontract. Daw pob is-gontractwr sy'n gweithio i NatCen o'n Rhestr o Gyflenwyr Cymeradwy. Cyflenwyr yw'r rhain yr ydym wedi gwneud archwiliad o'u cefndir ac sydd â chytundeb a chontractau wedi'u llofnodi yn eu lle yn barod, sy'n cael eu hadnewyddu bob 12 mis.

Ni fydd Sustrans, fel y rheolwr data, yn rhannu data'r arolwg gydag unrhyw un heblaw'r partneriaid llywodraethol a chynghorau lleol perthnasol, ac eraill at ddibenion ymchwil. Am fod potensial i ddata personol ymddangos yn nata'r arolwg, bydd hwn wedi ei ddiogelu bob amser gan gytundeb rhannu data.

## Am faint o amser fyddwch chi'n cadw fy nata personol?

Bydd NatCen yn cadw eich data personol tan 31 Rhagfyr 2024, ac yna bydd yn cael ei ddinistrio.

Bydd Sustrans yn cadw'r data dienw o'r arolwg am gyfnod amhenodol at ddibenion ymchwil, oherwydd bydd data'r arolwg yn parhau i fod yn ddefnyddiol i ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisïau.

## Eich hawliau

Mae gennych yr hawl i ofyn am gael mynediad at eich data, i'w addasu os yw'n anghywir, neu i ofyn iddo gael ei ddileu. Cewch hefyd wrthwynebu prosesu eich data neu cewch ofyn i ni gyfyngu ar y prosesu.

Ni fydd hyn yn bosibl unwaith y bydd y data wedi ei wneud yn ddienw.

Gallwch ganfod rhagor am eich hawliau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth:

https://ico.org.uk/your-data-matters

## Cysylltu â ni

I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn defnyddio eich data personol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data NatCen ar:

E-bost: dpo@natcen.ac.uk
Ffôn: 020 7250 1866
Post: 35 Northampton Square, London EC1V 0AX

Gallwch hefyd gysylltu â Rheolwr Diogelu Data Sustrans ar:

E-bost: dataprotection@sustrans.org.uk
Ffôn: 0117 926 8893
Post: Sustrans, 2 Cathedral Square, College Green, Bristol, BS1 5DD

Darllenwch bolisi diogelu data Sustrans ar www.sustrans.org.uk/privacy

## Cwynion

Os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â'ch hawliau diogelu data, gallwch gysylltu â ni ar dpo@natcen.ac.uk. Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y fan yma:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn - 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/concerns